

Gwyddoniaeth Wallgo!

Gwaith ar gyfer grŵp o bedwar

1. Trafodwch bob stori yn eu tro gan ystyried y posibilrwydd fod pob un yn wir. Ceisiwch gwestiynu pob ongl a chynnig atebion ond y pethau pwysicaf i'w gofyn yw... Pam? Sut?
2. Gan weithio'n unigol a defnyddio'r we, pwy fydd y cyflymaf yn eich grŵp i ddarganfod y stori ffug?
3. Rhannwch yn ddau dîm o ddau. Y tro hwn, gan ddefnyddio'r we unwaith eto, darganfyddwch straeon gwallgo eich hunain. Defnyddiwch ddwy stori oddi ar y we. Yn Gymraeg, ysgrifennwch ddau baragraff byr i gyflwyno'r straeon. Yna, ysgrifennwch baragraff byr arall yn cyflwyno stori ffug o'ch dychymyg eich hun. Er mwyn osgoi darganfod yr un straeon â'r tîm arall, dylai pob tîm ddewis maes penodol...

Technoleg	Iechyd	Y Gofod	Natur
Ffiseg	Arbrofion Newydd	Anifeiliaid	Bwyd

... allwch chi feddwl am feysydd eraill?

Cyflwynwch eich straeon i'r tîm arall. Byddwch yn barod i ateb cwestiynau... a byddwch yn barod i holi'r tîm arall yn dwll am eu straeon nhw!! Allwch chi ddarganfod y straeon ffug?!